

# Gweithiwr Cefnogi

## Gwasanaeth Cynnydd Anabledd

Cyflog: G02 £25,583 - £26,824

Llawn Amser

Tŷ Dewi Sant, Parc Dewi Sant, Swyddfeydd y Cyngor, Ewlo.

Mae cyfle gwych ar gael gan Gyngor Sir y Fflint i unigolyn brwdfrydig ac ymroddedig **ymuno â'n Tîm Cynnydd Anabledd, fel Gweithiwr Cefnogi.** Byddwch yn gweithio ar flaen y gad o ran arferion gorau Gwasanaethau Anabledd, gan gydweithio gydag asiantaethau partner i sicrhau'r canlyniadau gorau ar gyfer oedolion gydag anabledd. Byddwch yn rhan o dîm cefnogol sy'n falch o gefnogi oedolion gydag anghenion gofal a chymorth, gan leihau risgiau a'u galluogi i fod mor annibynnol â phosibl.

Dylech hefyd fod â phrofiad o weithio gyda phobl sydd angen gofal a chymorth. Byddwch yn cefnogi Gweithwyr Cymdeithasol yn y tîm hwn i gyflawni asesiadau meincnodi, yn ogystal â darparu cymorth ag ymyriadau tymor byr gan gynnwys asesiadau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2016. Mae'n bosib y bydd disgwyl i chi weithio hefyd gyda phobl sydd ag anghenion cymorth nad ydynt yn bodloni meini prawf penodol ar gyfer un o'r timau gofal cymdeithasol i oedolion o fewn Sir y Fflint.

Bydd deiliad y swydd yn gyfrifol am sicrhau eu bod yn gweithio o fewn polisïau, gweithdrefnau a chanllawiau adrannol, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r Ddeddf Diogelu Data, protocolau cyfrinachedd a rhannu gwybodaeth, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2016 a gweithdrefnau diogelu rhanbarthol a lleol.

Mae sgiliau ysgrifennu a siarad Cymraeg yn ddymunol.

Fel un o'r cyflogwyr mwyaf yn Sir y Fflint, rydym yn cynnig uchafswm o 34 diwrnod (pro rata) o wyliau blynyddol gan gynnwys gwyliau banc, gan gynyddu i 41 diwrnod (pro rata). Mynediad at Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a chynlluniau cydbwysedd teulu a gwaith hael. Gweithio'n hybrid (swyddi penodol). Mynediad at amrywiaeth o gyfleoedd datblygu Rhaglen Cymorth i Weithwyr am ddim. Cynllun Beicio i'r Gwaith. Gostyngiad ar draws masnachwyr yn y DU.

I gael rhagor o wybodaeth neu sgwrs anffurfiol, cysylltwch â: Claire.mayers@flintshire.gov.uk Rheolwr, Tîm Cynnydd Anabledd, sara.l.jones@flintshire.gov.uk Dirprwy Reolwr Tîm, Tîm Cynnydd Anabledd.

Gyda'n gilydd gallwn ni i gyd helpu i gadw **Sir y Fflint** yn ddiogel

Together we can all help to keep **Flintshire** safe

Cyngor Sir y Fflint
Flintshire County Council